Cyfarfod Cyffredinol Undeb Bangor

3 Hydref 2018 - PL5

14:00

1. **Croeso'r Cadeirydd**
   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r CC ac egluro polisïau craidd UM; cyfle cyfartal, man diogel a dwyieithrwydd.

2. **Ymddiheuriadau**
   Dim
3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
   Cymeradwywyd
4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   Dim

5. **Cyhoeddi Etholiadau**
   Cyhoeddodd y cadeirydd fod etholiadau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.

6. **Cyflwyniad Tîm Uwch Reolwyr y Brifysgol a Sesiwn Holi - yr Athro John Hughes**
   Traddodwyd cyflwyniad i'r myfyrwyr gan yr Athro John Hughes, yr Is-ganghellor, a gwnaeth y pwyntiau canlynol:
   - Mae Prifysgol Bangor wedi ennill nifer o wobrau am brofiad myfyrwyr; mae'n cael ei gosod ymhlith y deg uchaf yn y Deyrnas Unedig allan o 153 o brifysgolion.
   - Yn y Gwobrau What Uni, enillodd Bangor Wobr Clybiau a Chymdeithasau Gorau am yr 2il flwyddyn yn olynol yn ogystal â'r Wobr Llety Myfyrwyr Gorau.
   - Gwobr Ailgylchu Gorau hefyd ac rydym yn Brifysgol gynaliadwy.
   - Mae'n amser anodd i brifysgolion.
   - Nid ydym bellach yn brifysgol a ariennir yn gyhoeddus.
   - Rydym wedi llwyddo i atal ffioedd myfyrwyr rhag codi, gartref a thramor.
   - Byddwn yn gwneud arbedion effeithlonrwydd ond ni fydd y rhain ar draul profiad myfyrwyr megis Gwasanaethau Myfyrwyr, TG a'r llyfrgelloedd.
   - Rydym yn buddsoddi mewn neuaddau preswyl a chyfleusterau chwaraeon, mae'r gwaith ar y maes 3G yn mynd rhagddo a gobeithio y bydd yn barod erbyn dechrau'r gwanwyn.
   - Buddsoddwyd mewn ystafelloedd addysgu megis yn Pontio; gwnewch yn fawr ohonynt.

Cwestiynau

Dim

7. **Cymeradwyo Ymddiriedolwyr**
   Cyflwynodd Ruth Plant yr ymddiriedolwr newydd i'r CC a rhoi disgrifiad byr o bob Ymddiriedolwr.

Cymeradwywyd yr holl Ymddiriedolwyr.

8. **Adroddiad Undeb Bangor 2018-19 - wedi'i ddilyn gan Sesiwn Holi.**

   Cyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnwyd i bob myfyriwr a helpodd gyda'r Penwythnos Croeso a Serendipedd sefyll ar eu traed a chawsant gymeradwyaeth fel diolch am helpu Undeb Bangor.

Newyddion y Tîm Sabothol

- Cafodd y Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr ei basio yn Senedd y Brifysgol ar ddiwedd
  y flwyddyn academaidd, a bydd yn dechrau cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn academaidd hon.
- Adroddiad Blynyddol Profiad Myfyrwyr: Dyma Adroddiad Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd cyntaf Undeb.
- Sicrhawyd y 'Wobr Ragoriaeth' am ein cyflwyniad Effaith Werdd - sy'n golygu ein bod yn un o'r 15 prifysgol uchaf yn y Deyrnas Unedig am ein gwaith cynaliadwyedd.
- Unwaith eto, cyflwynwyd 'Rhaglen Sesiynau'r Haf' enfawr arall - gan gymryd myfyrwyr o gwmpas Gogledd Cymru ac ennyn cyfraniad ein cymuned ryngwladol.
- Hoffai'r swyddogion sabothol ddweud diolch yn fawr iawn i'r holl fyfyrwyr a helpodd i osod a rhedeg Serendipedd yr wythnos diwethaf.
- Serendipedd yw'r digwyddiad mwyaf y mae'r Undeb yn ei drefnu i fyfyrwyr, mae'n ddigwyddiad sy'n cymryd tua 9 mis o gynllunio, ond yn sgil y rhagolygon tywydd eithriadol a gwyntoedd cryfion iawn, roedd gennym oddeutu 48 awr i ailfeddwl popeth a cheisio sicrhau bod y myfyrwyr yn dal i gael y mwyaf o'r diwrnod. Eleni cawsom dros 7,000 o bobl yn ymweld dros y diwrnod. Hoffem i bawb wnaeth wirfoddoli yn y broses o osod a chlirio sefyll ar eu traed er mwyn i ni ddiolch i chi i gyd am helpu Undeb Bangor; roedd yn anhygoel gweld cymaint o fyfyrwyr a roddodd help llaw a chymaint mae'r myfyrwyr yn ei feddwl o'r digwyddiad i gynnig eu cymorth i Undeb Bangor.

Gethin Morgan

- Eglurodd Gethin Morgan, Llywydd UMCB, fod UMCB yn debyg i Undeb y Myfyrwyr ond yn edrych ar ôl y myfyrwyr Cymraeg ac yn gwarchod eu gwerthoedd, a'i fod bellach wedi uno gydag Undeb Bangor. Mae'r swyddogion sabothol yn helpu ei gilydd i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn flaenllaw.
- Eglurodd Gethin y cyfleoedd sydd ar gael gan UMCB sy'n cynnwys:
  - gwahanol gymdeithasau, Aelwyd JMJ, Cymdeithas y Dysgwyr, Y Llef
  - Chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg
  - Calendr Cymdeithasol
  - Digwyddiadau Blynyddol - Eisteddfod, Gloddest, Taith Rygbi
  - Gwirfoddoli - Cyfaill Cymraeg
- Eglurodd Gethin sut mae UMCB yn gysylltiedig â'r Llais Myfyrwyr:
  - Yn sicrhau bod y Gymraeg yn flaenllaw yn y Brifysgol
  - Yn gweithio gyda Chanolfan Bedwyr a'r Coleg Cymraeg i sicrhau darpariaeth Gymraeg gref
  - Yn gweithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ar bob lefel
  - Iechyd Meddwl
- Esboniodd Gethin ei flaenoriaethau personol ar gyfer y flwyddyn a oedd yn cynnwys:
  - Ymgyrch cynrychiolwyr cwrs Cymraeg

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Cyfrwng Cymraeg newydd ar lefel coleg
- Adeiladu ar lwyddiant blynyddol Shw'mae Su'mae
- Datblygu trefn wobrwyo i UMCB
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant trwy holl feysydd gwaith Undeb

Diolchodd Gethin i'r gynulleidfa am wrando a rhoddodd ei fanylion cyswllt a phwysleisio ei bolisi drws agored.

Mark Barrow

- Eglurodd Mark Barrow, yr Is-lywydd Addysg, ei flaenoriaethau personol ar gyfer y flwyddyn, a oedd yn cynnwys:

  - Ymgyrch Goddef Dim Aflonyddu Rhywiol.
  - Gweithio'n agos gyda Chynrychiolwyr Cwrs.
  - Ymgyrch dai 'Peidiwch â Chynhyrfu', ac ymgyrch adolygu tai.
  - Ymgyrch lleihau plastig.
  - Ehangu ymwybyddiaeth o fanteision Panopto.
  - Diwrnod Cofio'r Holocost.
  - Mis Hanes Anabledd.
  - Ennyn diddordeb cynyddol yn Undeb Myfyrwyr - gweithio *gyda'r* myfyrwyr.

- Esboniodd Mark yr hyn y mae'n gweithio arno, o ran agweddau Addysg:
  - Sicrhau bod y drefn Cynrychiolwyr Cwrs yn gweithio i bob myfyriwr.
  - Gweithio gyda Chynrychiolwyr Cwrs ac academyddion i hyrwyddo manteision Panopto.
  - Ffau Dreigiau'r Cynrychiolwyr Cwrs - 5 Rhagfyr.
  - Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr/Gwobrau Cynrychiolwyr Cwrs - 3 Mai.
  - Hyrwyddo trefn o gofnodi pa gyfrifiaduron sydd ar gael yn y llyfrgelloedd.
  - Wythnos y Cynrychiolwyr Cwrs: 3 - 7 Rhagfyr.
  - Hyrwyddo PhTe.
  - Cynllun Gweithredu'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS).

- Eglurodd Mark yr hyn y mae'n gweithio arno, o ran agweddau Lles:
  - Ymgyrch Goddef Dim Aflonyddu Rhywiol: yn lansio ar 26 Tachwedd.
  - Gorymdaith Adennill y Nos: 29 Tachwedd.
  - Ymgyrch Tai Peidiwch â Chynhyrfu: 13 - 15 Tachwedd.
  - Ymgyrch adolygu tai (*Marks Out of Tenancy*): parhaus.
  - Ymgyrch lleihau plastig: parhaus
  - Gwobrau'r Landlordiaid 3 Ebrill.
  - Lles ar Olwynion: parhaus
  - Hyrwyddo'r Big White Wall.
  - E-gŵyl: 22 - 26 Hydref 2018.
  - Cymorth Astudio: tymor arholiadau

- Cyflwynodd Mark Errol Grant, Cynrychiolydd Cwrs yn yr Ysgol Busnes, a thraddododd gyflwyniad ar ei gyraeddiadau fel cynrychiolydd cwrs hyd yma:
  - Eglurodd Errol ei fod wedi bod yn gweithio gyda myfyrwyr gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o adborth a soniodd am ei lwyddiannau.

- Diolchodd Mark i bawb am roi'r cyfle iddo weithio fel swyddog sabothol a rhoddodd ei fanylion cyswllt a phwysleisio ei bolisi drws agored.

Muhammad Fadzil

- Traddododd Muhammad, yr Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli, adroddiad i'r Cyfarfod Cyffredinol ar ei flaenoriaethau personol a oedd yn cynnwys:
    - Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ynghylch Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor (GMB)
    - Annog cynaliadwyedd a chydweithio mewn Cymdeithasau a Gwirfoddoli, yn enwedig yn drefniadol ac yn ariannol.
    - Datblygu cymdeithasau cyfryngau'r myfyrwyr ac annog diwylliant newyddiaduraeth yng nghyfryngau'r myfyrwyr.
    - Gwella cynrychiolaeth ar gyfer grwpiau myfyrwyr lleiafrifol, yn enwedig myfyrwyr Rhyngwladol a grwpiau Rhyddid (LHDT+, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), Anabl, etc.)
- Cyflwynodd Muhammad yr ap Olio i'r Cyfarfod Cyffredinol, ap y gallwch ei ddefnyddio i gyfrannu bwyd diangen am ddim neu wneud cais am fwyd a threfnu i'w godi drwy anfon neges.
- Diolchodd Muhammad i'r gynulleidfa am wrando a rhoddodd ei fanylion cyswllt a phwysleisio ei bolisi drws agored.

Ruth Plant

- Traddododd Ruth, Llywydd Undeb Bangor, adroddiad i'r Cyfarfod Cyffredinol ar ei blaenoriaethau personol a oedd yn cynnwys;
    - Gweithio ar dlodi bwyd myfyrwyr a gwella'r darpariaethau i fynd i'r afael â'r mater.
    - Datblygu darpariaethau i fyfyrwyr ag anabledd a gweithio gyda'r Gwasanaethau Anabledd i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella'r gwasanaethau sydd ar gael.
    - Parhau i weithio ar 'Ferched yn y Cwricwlwm' a datblygu'r rhaglen hon i gynnwys anghysondebau eraill o fewn modiwlau a chyrsiau
    - Gweithio gyda'r Gwasanaethau Llyfrgell i wella darpariaethau a phrofiad myfyrwyr o'r gwasanaethau hyn.
    - Gweithio gyda'r brifysgol i wella'r gweithdrefnau disgyblu a gweithdrefnau cwynion ar draws y brifysgol
    - Gweithio gyda'r heddlu lleol ar ddiogelwch beicio a beiciau o gwmpas Bangor
    - Gweithredu ar syniadau Cyngor Undeb Bangor (CUB).
    - Gweithio ar Fis Hanes Merched i gael gweithgareddau a digwyddiadau'n barod ar gyfer y flwyddyn nesaf.
    - Gweithio gyda Choleg Bangor yn Tsieina i wella'r berthynas ag Undeb y Myfyrwyr
    - Gweithio i ddileu Tlodi Mislif ymysg myfyrwyr.
- Diolchodd Ruth i bawb am wrando a rhoddodd ei manylion cyswllt.

Louise Fell

- Eglurodd Louise Fell, yr Is-lywydd Chwaraeon, hunangynhaliaeth yr Undeb Athletau:
    - Yn dibynnu ar y grant bloc
    - Codi arian ar raddfa fechan

    - Cytundebau nawdd sydd fel arfer yn rhai lleol
- Esboniodd Louise werth masnachol Undeb y Myfyrwyr:
    - Mae chwaraeon yn ganolbwynt masnachol
    - Mae potensial yr Undeb Athletau i ennill arian yn enfawr
    - Angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r enw er mwyn gwella cyfleoedd i fyfyrwyr.
- Cyflwynodd Louise ffeithiau am Iechyd Meddwl Dynion gan ei fod yn fater yr hoffai ganolbwyntio arno eleni.
    - Mae Iechyd Meddwl Dynion yn un o'r pwyntiau trafod mwyaf yn y sector addysg ar hyn o bryd, a hynny am reswm da.
    - Mae ¾ yr achosion o hunanladdiad yn ddynion
    - Hunanladdiad yw'r achos marwolaeth pennaf i ddynion o dan 35 oed.
    - Mae 12.5% o ddynion yn y Deyrnas Unedig yn dioddef o un o'r anhwylderau iechyd meddwl cyffredin.
- Mae Louise eisiau sicrhau bod Bangor yn cael ei gynrychioli'n effeithiol ar y map chwaraeon.
- Diolchodd Louise i bawb am wrando a rhoddodd ei manylion cyswllt.

Cwestiynau

- Rhoddwyd gwybod i ni gan y pwyllgor cyswllt myfyrwyr na all aelodau cyswllt bleidleisio ar welliannau cyfansoddiadol, os felly a ellir newid y rheol hon? Maen nhw'n haeddu rhywfaint o ddweud ar natur cymdeithas.
    - Mae wedi ei amlinellu felly yn ein his-ddeddfau ar hyn o bryd ond gellir newid is-ddeddfau. Gellir eu newid yng Nghyngor Undeb Bangor; a dweud y gwir mae'r newid eisoes wedi cael ei gyflwyno fel syniad. Os caiff ei gefnogi bydd yn cael ei drafod yng Nghyngor Undeb Bangor (CUB). Gall unrhyw un ddod i gyfarfod CUB a gynhelir yn Ystafell y Gofyniad ar 18 Hydref am 6pm.
- Darpariaeth Gymraeg: sut mae cael gwybodaeth allan yn gyflym trwy gyfrwng y Gymraeg?
    - Gall Canolfan Bedwyr helpu. Mae opsiwn cyfieithu cyflym ar gael ar eu system ar gyfer dogfennau o dan 250 o eiriau; byddant yn ateb y diwrnod hwnnw.
- Faint o amser mae'n ei gymryd i weithredu syniad?
    - Mae'n dibynnu ar y syniad, gallai gymryd ychydig fisoedd neu flwyddyn gyfan. Mae croeso i fyfyrwyr ddod i mewn i drafod amserlenni gwaith. Caiff y cynigydd ei ddiweddaru hefyd.

Blaenoriaethau'r Tîm Sabothol

Cyflwynodd y Tîm Swyddogion Sabothol eu blaenoriaethau tîm ar gyfer y flwyddyn, a oedd yn cynnwys:

Iechyd Meddwl
Cynyddu ymwybyddiaeth am Iechyd Meddwl a'r darpariaethau sydd ar gael i fyfyrwyr Bangor yn UM ac yn y Brifysgol. Gweithio i greu Strategaeth Iechyd Meddwl dan Arweiniad Myfyrwyr ar y cyd â'r Brifysgol.

- Canolbwyntio ar hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol ymysg y corff myfyrwyr trwy rai o'n hymgyrchoedd - Wythnos Byw'n Iach, E-gŵyl etc.
- Mwy o gefnogaeth a hyfforddiant i'n harweinwyr myfyrwyr
- Darpariaeth iechyd meddwl gwell i fyfyrwyr, gan gynnwys llwyfannau digidol
- Hyrwyddo'r gwasanaethau presennol sydd ar gael, gan gynnwys y Big White Wall

Adolygiad o Gynrychiolaeth a'r Drefn Lywodraethu

- Adolygu strwythur a chylch gorchwyl Cyngor Undeb Bangor
- Adolygu sut y byddwn yn cynrychioli grwpiau lleiafrifol
- Ymgynghori â myfyrwyr ynglŷn â'n strwythur cynrychiolaeth presennol

Ennyn Diddordeb Myfyrwyr - Cyfoethogi a Gwella Ymrwymiad Myfyrwyr

- Cynyddu'r cysylltiadau uniongyrchol rhwng swyddogion sabothol â'r corff myfyrwyr er mwyn hyrwyddo gwaith UM a chasglu barn myfyrwyr.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd mwy o ran yn ein hymgyrchoedd
- Cynyddu cyfranogiad ac ymwneud mewn etholiadau

Yr Iaith Gymraeg - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn gyson

- Integreiddio dwyieithrwydd i holl feysydd gwaith yr Undeb, a sicrhau bod dwyieithrwydd yn flaenllaw ym mhopeth a wnawn.
- Ymgorffori'r Gymraeg i bob gweithgaredd dan arweiniad myfyrwyr
- Datblygu Polisi a Threfnau Dwyieithrwydd

9. **Cymeradwyo Aelodaeth Gyswllt ag Undeb Bangor 2018-19**
   Gofynnodd Ruth i'r myfyrwyr bleidleisio dros, yn erbyn neu ymatal ar restr Aelodaeth Gyswllt Undeb Bangor.
   Pleidlais: PASIWYD

10. **Gwelliant Cyfansoddiadol**
    Is-ddeddf Dwyieithrwydd - Soniodd Gethin am yr Is-ddeddf- gweler yr Is-ddeddf yma.
    Cwestiynau
    - Os yw'r holl ddogfennau swyddogol yn Gymraeg, a oes angen i Gyfansoddiad Cymdeithasau fod yn Gymraeg?
      - Oes, gall Undeb y Myfyrwyr a Chanolfan Bedwyr helpu.
    - Pam fo angen i'r Gymraeg fod ar y chwith neu uwch ben y Saesneg?
      - Polisi'r Brifysgol

PLEIDLAIS: Pasiwyd

11. **Cymeradwyo Presenoldeb yng Nghynadleddau Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM)**
    Eglurodd Ruth i ba gynadleddau UCM yr hoffai Undeb Bangor anfon myfyrwyr etholedig a Swyddogion Sabothol a gofyn i'r myfyrwyr bleidleisio dros hynny, yn ei erbyn neu ymatal.
    PLEIDLAIS: Pasiwyd

12. **Cyflwyniad i Bwyllgorau Gwaith Undeb**
    - Cyflwynwyd Pwyllgor Gwaith yr Undeb Athletau, Pwyllgor Gwaith UMCB a Phwyllgor Gwaith y Cymdeithasau a Gwirfoddoli i'r Cyfarfod Cyffredinol.

13. **Cyllideb Undeb Bangor 2018-19 a Datganiad Gwariant 2017-18**
    Eglurodd y Tîm Swyddogion Sabothol Gyllideb Undeb Bangor 2018-19 a'r Datganiad Gwariant i'r Cyfarfod Cyffredinol. Gofynnwyd i'r myfyrwyr bleidleisio dros Gyllideb Undeb Bangor 2018-19, yn ei herbyn neu ymatal.
    PLEIDLAIS: Pasiwyd

14. **UFA - CUB ac Etholiadau'r Cynrychiolwyr Cwrs**
    Atgoffwyd myfyrwyr fod y cyfnod enwebu wedi agor ar gyfer cynrychiolwyr Cyngor Undeb Bangor ac Etholiadau'r Cynrychiolwyr Cwrs.

Undeb Bangor General Meeting

3rd October 2018 – PL5

14:00

15. **Chairs Welcome**
    The Chair welcomed everyone to the GM and explained the SU's core policies; equal opportunities, safe space and bilingualism.

16. **Apologies**
    None Received

17. **Minutes from the last meeting**
    Approved

18. **Matters Arising from the Minutes**
    N/A

19. **Announcement of Elections**
    The chair announced the Elections currently running to the General Meeting.

20. **University Senior Management Team Presentation and Q & A – Prof. John Hughes**
    The Vice Chancellor Prof. John Hughes updated the students on the following:
    - Bangor University has won numerous awards for it student experience; it is ranked top 10 in the UK out of 153 Universities.
    - At the What Uni Awards Bangor won best clubs and societies for the 2nd year running as well as best student accommodation.
    - Best recycling and we are a sustainable University
    - It is a difficult time for Universities
    - We are no longer a public funded University
    - We stopped student fees rising, home and overseas.
    - We will be making efficiencies but none will be at the expense of the student experience such as student services, IT and the libraries.
    - We are investing in halls and sports facilities, the 3G pitch is going ahead and will hopefully be ready by early spring.
    - Invested in teaching rooms such as Pontio, make the most use out of it.

Questions

None

21. **Trustee Approval**
    Ruth Plant presented the new trustee to the GM and gave a brief description of each Trustee.

    All Trustees were approved.

22. **Undeb Bangor Update 2018-19 – followed by Q &A**

Before the update, all students who helped with Welcome Weekend and Serendipity were asked to stand up and were applaud as a thank you for helping Undeb Bangor.

General Sabb Update

- The Student Led Teaching and Learning Strategy was passed at University Senate at the end of last year, and implementation will start during this academic year.
- Student Experience Annual Report: This is Undeb's first Postgraduate Research Student Experience Report.
- Secured the 'Excellence Award' for our Green Impact submission – making us one of the top 15 Universities in the UK for sustainability work.
- Once again rolled out another huge 'Summer Sessions Programme' – taking students around North Wales and engaging with our international community.
- The sabbs would like to say a massive thank you for all of the students who helped during the set up and running of Serendipity last week.
- Serendipity is the biggest event Undeb organises for students it's an event that usually takes around 9 months of planning, however with the exceptional weather conditions forecasted and the gale force 8 winds, we had around 48 hours to rethink everything whilst trying to ensure studets still got the most out of the day. This year we had a footfall of over 7,000 people over the day. We'd like all of those who volunteered with the set up and clear up to stand up we'd like to thank you all for helping Undeb Bangor, it was amazing to see so many students and how much students think of the event to help Undeb Bangor.

Gethin Morgan

- Gethin Morgan, President of UMCB, explained the UMCB is similar to Students' Union but looks and protects the Welsh values unified with Undeb Bangor. Sabbs help eachother and ensure welsh is forefront.
- Gethin explained the opportunities available from UMCB which included:
    - Different societies, Aelwyd JMJM, Learners', Y Llef
    - Sports through the medium of Welsh
    - Social Calendar
    - Annual Events – Eisteddfod, Gloddest, Rugby Tour
    - Volunteering – Welsh friend
- Gethin explained how UMCB links with Student Voice:
    - Ensuring that the Welsh language is forefront to the University
    - Work with Canolfan Bedwyr and the Coleg Cymraeg to ensure strong Welsh provision
    - Work with the University to ensure the Welsh Language is being considered at all levels
    - Mental Health
- Gethin's explained his individual priorities for the year which included:
    - Welsh speaking course rep campaign
    - Work with newly appointed Directors of Welsh Medium at college level
    - Build on annual She'mae Su'mae success
    - Develop a reward system for UMCB
    - Raise awareness of the language and culture through all areas of Undeb

Gethin thanked the audience for listening and presented his contact details and open door policy.

Mark Barrow

- Mark Barrow, VP Education, explained his individual priorities for the year, which included:

    - Zero Tolerance to Sexual Harassment campaign.
    - Working closely with Course Representatives.
    - 'Don't Panic' housing campaign, and house reviewing campaign.
    - Plastic reduction campaign.
    - Widening awareness of the benefits of Panopto.
    - Holocaust Memorial Day.
    - Disability History Month.
    - Increased engagement with your Students' Union – working *with* students.

- Mark explained what he is working on, on the side of education:
    - Making sure the Course Rep system works for all students.
    - Working with Course Reps and academics to promote the benefits of Panopto.
    - Course Rep Dragons Den – 5th December.
    - Student-led Teaching Awards/Course Rep Awards – 3rd May.
    - Promotion of library computers availability.
    - Course Rep Week: 3 – 7 December.
    - PhTea promotion.
    - NSS Action Planning.

- Mark explained what he is working on, on the side of welfare:
    - Zero Tolerance to Sexual Harassment campaign: launches on 26th November.
    - Reclaim the Night march: 29th November.
    - Don't Panic housing campaign: 13 – 15 November.
    - House reviewing campaign (Marks Out Of Tenancy): ongoing.
    - Plastic reduction campaign: ongoing
    - Landlord Awards: 3rd April.
    - Welfare on Wheels: Ongoing
    - Big White Wall promotion.
    - De-Stresstival: 22 – 26 October.
    - Study Aid: exam season

- Mark introduced Errol Grant, a Business School Course rep, who presented his achievements of being a course rep so far:
    - Errol explained that he had been working with students using various feedback methods and shared his successes.
- Mark thanked everyone for giving him the opportunity to work as a sabbatical officer and presented his contact details and open door policy.

Muhammad Fadzil

- Muhammad, VP Societies and Volunteering, updated the General Meeting on his individual priorities which included:
    - Promoting & raising awareness for Student Volunteering Bangor (SVB)

    - Encouraging sustainability & collaboration in Societies & Volunteering, particularly organisational and financial.
    - Develop student media societies & encourage a student media journalism culture.
    - Improve representation for minority student groups, particularly International and Liberation (LGBT+, BAME, Disabled, etc)
- Muhammad updated the General Meeting on the Olio app which is an app where you can donate free unwanted food or request food and can message to arrange picking it up.
- Muhammad thanked everyone for listening and presented his contact details and open door policy.

Ruth Plant

- Ruth, President of Undeb Bangor, updated the General Meeting on her individual priorities which included;
    - Working on student food poverty and improving the provisions to tackle this issue
    - Developing disability provisions and working with disability services to increase awareness and improve the services that are available
    - Continue work on 'The Women in the Curriculum' and developing this programme to include other discrepancies within modules and courses
    - Working with Library Services to improve provisions and the student experience of these services
    - Working with the university to improve the disciplinary procedures and complaints procedures across the university
    - Working with the local police on safety and bike security around Bangor
    - Completing UBC ideas
    - Working on Women's History Month to get activities and events ready for next year
    - Working with Bangor College China to improve the relationship with the Students' Union
    - Working to eliminate Period Poverty within the student body
- Ruth thanked everyone for listening and presented her contact details.

Louise Fell

- Louise Fell, VP of Sport, explained the AU's self-sufficiency:
    - Reliant on block grant
    - Fundraising completed on a small scale
    - Sponsorships typically local
- Louise explained the commercial value of the SU:
    - Sport is a commercial hub
    - The earning potential of the AU is huge
    - Need to get the name out there to improve opportunities to students
- Louise presented facts about Men's Mental Health as it something she would like to focus on this year.
    - Men's Mental Health is one of the biggest talking point in the education sector currently, and for good reason
    - ¾ suicides are by men
    - Suicide is the biggest cause of death for men under 35
    - 12.5% of men in the UK are suffering from one of the common mental health disorders

- Louise wants to ensure the representation of Bangor on the sporting map
- Louise thanked everyone for listening and presented her contact details.

Questions

- The student liaison committee informed us that affiliate members can't vote on constitutional amendments, if so can it be changed? They deserve some say on how a society is.
    - It is currently set out like this in our bye-law but bye-law's can be changed,. They can be changed at Undeb Bangor Council; it has actually already been submitted as an idea. If it is upvoted it will be discussed in UBC. Anyone can come along to UBC which is held in the Room of requirement on the 18th October at 6pm.
- Welsh long provision how to get information out quickly in the medium of Welsh?
    - Canolfan Bedwyr can help. Documents under 250 words there is a quick option to translate on their system, they answer that day.
- How long does it take to implement an idea?
    - Depends on idea, it could take a couple of months or a whole year. Students are welcome to come in to discuss timeframes. The proposer is also given updates.

Sabb Team Priorities

The Sabbatical Officer Team presented their team priorities for the year, which included:

Mental Health
Increase awareness of Mental Health and the provisions available for Bangor Students within the SU and the University. Work to create a Student-led Mental Health Strategy in collaboration with the University.

- Focus on promoting positive mental health within the student body through some of our campaigns - 'Healthy living Week', Destresstival ext.
- Increased support and training for our student leaders
- Better Welsh language mental health provision for students, including digital platforms
- Promotion of current services available including Big White Wall

Representation and Governance Review

- Review Undeb Bangor Council structure and remit
- Review how we represent minority groups
- Consult with students on the current representation structure we have in place.

Student Engagement - Enhance and Improve Student Engagement

- Increase sabbatical officer engagement on the ground with the student body to promote the work of the SU and gather student opinions
- Get students more involved in our campaigns
- Increase participation and involvement in elections

Welsh Language - Consistently champion the Welsh Language and Culture

- Integrate bilingualism in to all areas of the Undeb, ensuring bilingualism is at the forefront of everything we do
- Embedding of Welsh Language in all student led activities
- Development of Bilingual Policy and Procedures

23. **Approval of Undeb Bangor Affiliations 2018-19**
    Ruth asked the students to vote for, against or abstain for Undeb Bangor affiliations.
    Vote: PASSED

24. **Constitutional Amendment**
    Bilingualism By-Law – Gethin spoke of the Bye-Law – see Bye-Law here.
    Questions
    - If all official documents are in Welsh, does the Society Constitution need to be in Welsh?
        - Yes, The Students Union and Canolfan Bedwyr can help.
    - Why does Welsh need to be on the left or above?
        - University policy

VOTE: Passed

25. **Approval of NUS Conference Attendance**
    Ruth explained which NUS conference Undeb Bangor would like to send elected students and Sabbatical Officers to and asked the students to vote for, against or abstain.
    VOTE: Passed

26. **Introduction to Undeb Executive Committees**
    - Athletic Union Executive Committee, UMCB Executive Committee and Societies and Volunteering Executive Committee was introduced to the General Meeting.

27. **Undeb Bangor Budget 2018-19 and Spending Statement 2017-18**
    The Sabbatical Officer Team explained the Bangor Budget 2018-19 and Spending Statement to the General Meeting. The students were asked to vote for, against or abstain to the Bangor Budget 2018-19.
    VOTE: Passed

28. **AOB – UBC and Course Rep Elections**
    Students were reminded that the Undeb Bangor Council and Coure Rep Elections are open for nominations.